Nursing & Midwifery Council

# Cofrestr yr NMC diweddariad canol blwyddyn

**1 Ebrill – 30 Medi 2025**



## Croeso i'n hadroddiad canol blwyddyn ar Gofrestr yr NMC a'r hyn y mae'n ei ddweud wrthym am y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU.

### Y darlun mawr

Ar 30 Medi, roedd nifer record o **860,801** o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar y Gofrestr – cynnydd o **0.8%** (**7,094** o weithwyr proffesiynol) ers 1 Ebrill.

Er bod y Gofrestr wedi parhau i dyfu, mae'r gyfradd twf wedi mwy na haneru o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd – rhwng Ebrill a Medi 2024, cynyddodd **1.8%** (**14,940** o weithwyr proffesiynol).

Mae'r arafwch yn bennaf oherwydd gostyngiad sydyn yn nifer y gweithwyr proffesiynol addysgedig rhyngwladol sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, ymunodd **6,321** o weithwyr proffesiynol rhyngwladol. Mae hynny'n ostyngiad o **49.6%** o'i gymharu â'r **12,534** o ymunodd rhyngwladol rhwng Ebrill a Medi y llynedd. Dyma hefyd y nifer isaf o weithwyr proffesiynol rhyngwladol mewn chwe mis ers pum mlynedd.

Nifer uchaf erioed o

**860,801**

o weithwyr proffesiynol cofrestredig

Cynnydd o

**7,094** **+0.8%**

ers mis Ebrill

**+0.7%** **Nyrsys** 793,694

**+1.9%** **Bydwragedd** 47,481

**-0.8%** **Cofrestreion deuol** 6,193

**+5.1%** **Cymdeithion nyrsio** 13,433

Gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol yn ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf



## Amrywiaeth ethnig

Mae'r Gofrestr wedi parhau i ddod yn fwy amrywiol yn ethnig. Mae **286,058** o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig bellach.

Mae hynny ychydig o dan draean o'r Gofrestr ar **33.2%** - cynnydd o **0.7 pwynt canran** ers 1 Ebrill pan oedd **227,716** o weithwyr proffesiynol Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed bod y sector iechyd a gofal cyfan yn mabwysiadu dull dim goddefgarwch tuag at hiliaeth a gwahaniaethu. O'n rhan ni yn yr NMC:

- Rydym wedi llofnodi Siarter Gwrth-Hiliaeth Unsain
- Rydym wedi addo dileu rhagfarn yn ein prosesau rheoleiddio a dileu atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer anghymesur a dderbynnir gan gyflogwyr mewn perthynas ag ethnigrwydd erbyn 2030
- Rydym wedi cynyddu amrywiaeth ethnig ymhlith aelodau panel sy'n penderfynu ar wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sy'n cynnwys nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae **26%** o aelodau panel lleyg a **24%** o aelodau panel cofrestredig bellach o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn y drefn honno.

## Golwg agosach ar recriwtio rhyngwladol

Mae'r arafwch yn nifer y bobl sy'n ymuno â ni rhyngwladol wedi'i ledaenu ar draws gwledydd ledled y byd, gan gynnwys dwy ffynhonnell fwyaf y DU o recriwtio rhyngwladol o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf - India a'r Philipinau.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, ymunodd **57.8%** yn llai o weithwyr proffesiynol o India nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd, a **68.1%** yn llai o'r Philipinau.

Yn y chwe mis diwethaf o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024

-25.7 Ymunodd **20,294** â'r Gofrestr

+6.6% Gadawodd **15,071** y Gofrestr

**33.2%** o'r Gofrestr yn weithwyr proffesiynol Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ym mis Medi 2020, roedd **20.1%** o'r Gofrestr yn Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Y Gofrestr o fis Medi 2025

**75.6%** Addysgwyd yn y DU

**24.4%** Addysgwyd yn rhyngwladol

Ymunwyr newydd o wledydd addysg nad ydynt yn y DU yn ystod y chwe mis diwethaf, a newid o'r un cyfnod yn 2024

1. **India** 2,467 ↓ -57.8%
2. **Nigeria** 931 ↓ -27.8%
3. **Ghana** 779 ↓ -9.0%

Ar ôl India, yr ail a'r drydedd ffynhonnell fwyaf o recriwtio rhyngwladol bellach yw Nigeria a Ghana, sydd ill dau yn wledydd 'rhestr goch'.[1] Mae ein data yn dangos **gostyngiad** o **27.8%** a **9.0%** yn nifer y bobl sy'n ymuno o'r gwledydd hyn yn y drefn honno, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Yn ogystal, gadawodd **2,710** o weithwyr proffesiynol rhyngwladol y gofrestr dros y chwe mis diwethaf, **5.3%** yn fwy nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig ystyried data'r rhai sy'n gadael fel cyfran o'r gofrestr sy'n tyfu - drwy'r lens hon gwelwn fod **1.4%** o'r garfan ryngwladol wedi gadael, ychydig yn is na **1.5%** yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

## Mae nifer yr ymunwyr a addysgwyd yn y DU yn amrywio ond mae'r twf cyffredinol yn parhau

Mae ein data yn dangos, ers mis Ebrill, fod 13,973 o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU wedi ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf. Mae hynny'n ostyngiad o **5.4%** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig gwybod bod y data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn wedi'i gasglu ar 30 Medi - yng nghanol y cyfnod brig ar gyfer carfannau newydd o raddedigion o'r DU sy'n ymuno â'r gofrestr.

Felly, gall nifer yr ymaelodion a addysgwyd yn y DU amrywio o un cyfnod chwe mis i'r llall, yn dibynnu a yw carfannau'n cael eu hychwanegu at y gofrestr cyn neu ar ôl 30 Medi. Mae hyn yn golygu, wrth chwilio am dueddiadau mewn ymaelodion a addysgwyd yn y DU, ei bod hi'n well edrych dros gyfnod hirach o 12 mis. O'r safbwynt hwn, gwelwn ddarlun cyson o recriwtio domestig.

Mae cadw gweithwyr proffesiynol cartref hefyd yn parhau'n gyson. Gadawodd cyfanswm o **12,361** o bobl a hyfforddodd yn y DU ein cofrestr yn ystod y chwe mis diwethaf. Fel cyfran o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU ar y gofrestr, mae hynny'n **1.9%** - cynnydd ymylol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (**1.8%**).

**Yn ystod y chwe mis diwethaf o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd**

+5.3%

**2,710** o bobl a adawodd y gofrestr wedi cael addysg ryngwladol

**Ym mis Medi 2025**

**44 mlynedd, 1 mis** oedd oedran cyfartalog pobl ar y Gofrestr

**Rhaniad rhywedd y Gofrestr**




**Ym mis Medi 2025**

1.6%

datganodd **13,373** o weithwyr proffesiynol anabledd

1 Mae'r codau ymarfer perthnasol ar gyfer recriwtio rhyngwladol personél iechyd a gofal cymdeithasol yn gwahardd recriwtio gweithredol o wledydd 'rhestr goch' a ddynodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Nid yw'r codau'n atal gweithwyr iechyd unigol o wledydd 'rhestr goch' rhag ceisio cyflogaeth yn annibynnol, ond ni ddylai cyflogwyr fod yn recriwtio'n weithredol o'r gwledydd hynny.

## Cynnydd yng ngweithlu bydwreigiaeth y DU

Mae ein data yn rhoi'r darlun pendant o'r gweithlu bydwreigiaeth sydd ar gael yn y DU, ar adeg pan fo cyflwr gwasanaethau mamolaeth dan graffu.

Mae ein data diweddaraf yn dangos cynnydd o **1.9%** yn nifer y bydwragedd ar ein cofrestr dros y chwe mis diwethaf - mae **47,481** o fydwragedd wedi'u cofrestru i weithio yn y DU bellach.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi, ymunodd **1,500** o fydwragedd â'n cofrestr am y tro cyntaf, sef **115** (**7.1%**) yn llai nag a ymunodd yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Gadawodd **744** o fydwragedd y gofrestr dros y chwe mis diwethaf, o'i gymharu â **664** yn ystod yr un cyfnod y llynedd. O'i ystyried fel canran o'r gofrestr, mae hynny'n gynnydd ymylol, gyda **1.6%** o fydwragedd yn gadael o'i gymharu ag **1.5%** dros yr un cyfnod yn 2024.



Ym mis Medi 2025, a newid yn ystod y chwe mis diwethaf

| Newid | Maes | Nifer |
|---|---|---|
| +0.5% | **Nyrsys oedolion** | 632,082 |
| +1.7% | **Nyrsys plant** | 62,556 |
| -0.2% | **Nyrsys anableddau dysgu** | 16,796 |
| +1.2% | **Nyrsys iechyd meddwl** | 105,103 |

Hyd amser ers cofrestru cychwynnol, newid yn ystod y chwe mis diwethaf

| Newid | Hyd | Nifer |
|---|---|---|
| +1.2% | **Pum mlynedd neu lai** | 244,749 |
| +4.8% | **Pum i 10 mlynedd** | 141,185 |
| -0.1% | **10 i 30 mlynedd** | 342,231 |
| -1.3% | **30 mlynedd neu fwy** | 132,636 |

## Y pedwar maes ymarfer nyrsio

Dros y chwe mis diwethaf, tyfodd nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru ym meysydd ymarfer nyrsio oedolion, plant ac iechyd meddwl.

Fodd bynnag, gostyngodd nifer y nyrsys anableddau dysgu **0.2%** (**36** o weithwyr proffesiynol) yn y chwe mis hyd at fis Medi.

Mae hyn yn bryder penodol o ystyried canfyddiadau ymchwil bod oedolion ag anabledd dysgu yn Lloegr bron ddwywaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o ddioddef marwolaeth y gellid ei hosgoi.[2]

## Rhannu mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Rydym yn gobeithio y bydd y trosolwg hwn, ochr yn ochr â'n tablau data cynhwysfawr, yn cefnogi cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg ar draws pedair gwlad y DU – gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o wasanaethau y mae pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt ar gyfer eu hiechyd a'u lles.

Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni yn research@nmc-uk.org.



**Paul Rees MBE**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd





2 Dysgu o Fywydau a Marwolaethau, Adroddiad LeDeR 2023 – Prif Adroddiad

**Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud i'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

## Ein gweledigaeth yw darparu addysg ac ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – wedi'u rheoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gyda thegwch a chyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn.

Rôl yr NMC yw **amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder** yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 860,000 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl hanfodol wrth wireddu hyn.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob nyrs, bydwraig neu gymrawd nyrsio cofrestredig wedi elwa o **addysg effeithiol**. Rydym yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chymrawd nyrsio ar ein Cofrestr yn bodloni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir** sy'n amddiffyn y cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd i **ymchwilio** i bryderon a chymryd camau i **amddiffyn y cyhoedd** yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni gyfyngu ar hawl gweithiwr proffesiynol nyrsio neu fydwreigiaeth i ymarfer.

**Rydym yn adeiladu NMC newydd** gyda gonestrwydd, tegwch, parch, ecwiti ac effeithiolrwydd wrth ei wraidd.

Rydym yn benderfynol o wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

Fel rhan o hyn, byddwn yn canolbwyntio ar **gryfhau ein gwaith rheoleiddio craidd** ac yn buddsoddi mewn effeithiolrwydd gwell.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk @nmcnews
The Nursing and Midwifery Council

nmc Nursing & Midwifery Council

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).